Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 18 Rhagfyr 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, W. Price, Ms R. S. Roberts, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts ac A. J. Rutherford.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 88. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Gwnaeth Caplan y Maer, y Tad Anthony Nnamah MSP, arwain bawb a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms S. Fleming, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor a D. Simmons.

## 89. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan unrhyw aelodau fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda?

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 90. COFNODION

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn o gyfarfod y Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20 Tachwedd 2024 - Cofnodion rhifau 71-87

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 20 Tachwedd 2024 - Cofnodion rhifau 29-31

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms V. Roberts a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 4 Rhagfyr 2024 - Cofnodion rhifau 32-36

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms V. Roberts a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 4 Rhagfyr 2024 - Cofnodion rhifau 62-72

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

Yng nghyswllt cofnod rhif 69 y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol (Polisi Rhyddfreiniwr Anrhydeddus), hysbysodd Clerc y Dref na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau i'w hystyried ar gyfer dyfarnu'r anrhydedd hwn eleni.

**91. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a'r Dirprwy Faer yn bresennol ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn arbennig at Wasanaeth Nadolig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn Eglwys Sant Tomos yn y Rhyl ac at Strafagansa Nadolig Ysgol Llywelyn, y ddau'n ddigwyddiadau rhagorol gyda phresenoldeb da.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**92. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017 ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1942 | Cyngor Sir Ddinbych | Costau is-etholiad Ward Tŷ Newydd | 3,296.21 |
| 1943 | Delwedd Ltd | Pecyn Office 365 i bedwar cyfrifiadur | 593.28 |
| 1944 | Sandra Williams | Costau cyfieithu | 323.26 |
| 1945 | Cyngor Sir Ddinbych | Rhent tir – Y Gerddi Coffa | 13.50 |
| 1946 | Cyngor Sir Ddinbych | Rhent tir – cysgodfan bws Tir Morfa Bus | 1.00 |
| 1947 | GoToMyPC | Adnewyddu tanysgrifiad | 208.80 |
| 1948 | HSBC | Ffi blynyddol y cerdyn masnachol | 32.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£4,468.05** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atolden i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**93. CYFLWYNIAD: COFNOD O FLWYDDYN YN SWYDD Y MAER**

Hysbysodd Clerc y Dref, yn sgîl absenoldeb y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine, byddai cyflwyno cofnod o'i blwyddyn yn swydd y Maer yn 2023-2024 yn cael ei aildrefnu yn y Flwyddyn Newydd.

**94. SESIWN CWESTIYNAU**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**95. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**96. PROSIECT FFOTOGRAFFIAETH**

Hysbysodd Clerc y Dref, mewn cyfrinachedd, fod unigolyn lleol sy'n bwriadu cynnal prosiect ffotograffiaeth yn y Rhyl a fyddai'n casglu barn trigolion lleol am y dref ac yn arwain at arddangosfa, wedi cysylltu â'r Cyngor Tref i ofyn i gynghorwyr gymryd rhan yn y prosiect.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn gwahodd yr unigolyn i gyfarfod â'r cynghorwyr i dechrau cyn cymryd rhan yn y prosiect arfaethedig, os oeddynt yn dymuno gwneud hynny.*

**97. STRATEGAETH TOILEDAU CYHOEDDUS CYNGOR SIR DDINBYCH**

Hysbysodd Clerc y Dref, mewn cyfrinachedd, am sefyllfa ddiweddaraf Cyngor Sir Ddinbych a gobeithir y bydd penderfyniadau ar y dewisiadau sydd ar gael yn cael eu rhannu gyda'r Cyngor Tref y flwyddyn nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio ystyried y dewisiadau nes eu derbyn gan Gyngor Sir Ddinbych.*

**98. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / Y CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2024, gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gymeradwyo argymhellion y gyllideb (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn ffurfiol, i godi praesept yn y flwyddyn ariannol 2025/26 a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

***PENDERFYNWYD*** *codi praesept o £580,000 ar Gyngor Sir Ddinbych, yn golygu ffi i eiddo Band D o £58.15 (o'i gymharu â £57.85 yn 2024/25) sy'n cynrychioli cynnydd o 0.52%, a chynghori Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny yn dilyn cyfarfod y Cyngor Tref ar 15 Ionawr 2025.*

**99. EITEM YCHWANEGOL: CYFRIF BANC CRONFA'R MAER**

Cynghorodd Clerc y Dref, yn dilyn y sylwadau gan yr Archwilydd Allanol, ei fod yn bwriadu agor cyfrif banc newydd i dderbyn a dosbarthu arian a godwyd gan y Maer yn unig o hyn ymlaen, a gofynnodd am awdurdod gan yr aelodau i wneud hynny.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi Clerc y Dref i agor cyfrif newydd.*

**100. EITEM YCHWANEGOL: LLUNGOPÏWR**

Hysbysodd Clerc y Dref, yn dilyn proses dendro a derbyn tri dyfynbris, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol wedi ei awdurdodi i dderbyn tendr gan ddarparydd cyfredol y Cyngor Tref, a gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo hynny.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai Clerc y Dref dderbyn y tendr.*

**101. EITEM YCHWANEGOL: YR IS-BWYLLGOR CYNNAL A CHADW TIROEDD**

Gofynnodd Clerc y Dref am awdurdod gan yr aelodau i'r Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd fwrw ymlaen i gyflwyno'r archeb ffurfiol ar gyfer planhigion haf a gaeaf y flwyddyn nesaf, yn dilyn ei gyfarfod ddydd Llun, 23 Rhagfyr 2024, ble byddai'n ystyried y dyfynbrisiau a dderbyniwyd yn dilyn hysbysebu'r cytundeb ar wefan GwerthwchiGymru.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi'r is-bwyllgor i fwrw ymlaen gyda'r archeb ffurfiol, petai dyfynbris a darparydd boddhaol yn cael eu dethol yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.*

**102. CYFNOD GWYLIAU'R NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd y Maer am gymeradwyaeth yr aelodau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r aelodau a ganlyn yn ystod y cyfnod o 18 Rhagfyr 2024 tan 15 Ionawr 2025.

| | |
|---|---|
| Materion Dinesig - | Y Maer a / neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio - | Cadeirydd a / neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Y Pwyllgor Cynllunio - Strategol a Gweithredol | Cadeirydd a / neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweitherdol |
| Unrhyw fusnes arall - | Cadeirydd a / neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau.*

**103. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddos y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..